

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) i egwyddorion cyffredinol y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) inquiry into the general principles of the [Tertiary Education and Research \(Wales\) Bill](#)

TER 33

Ymateb gan: Coleg Caerdydd a'r Fro

Response from: Cardiff and Vale College

Cyflwyniad

Coleg Caerdydd a'r Fro yw un o'r colegau mwyaf yn y DU, gan ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ym Mhrifddinas-Ranbarth Cymru.

Mae gennym dros 30,000 o ddysgwyr bob blwyddyn ar draws cyrsiau coleg amser llawn a rhan amser, cymwysterau prifysgol a rhaglenni prentisiaeth, ynghyd â darpariaeth hyfforddiant pwrpasol i gyflogwyr.

Nod

Y nod yw darparu ymateb ffurfiol gan Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro erbyn y dyddiad cau, sef 17 Rhagfyr.

Crynodeb o Ymateb CAVC i'r Ymgynghoriad 'Technegol'

Rhan 1: Fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil

Yn gyffredinol, mae CAVC yn cefnogi cyflwyno corff newydd i oruchwylio PCET yng Nghymru. Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru bennu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer cyflawni gan y Comisiwn. Dylai unrhyw ddarpariaeth i dynnu darparwyr o'r gofrestr hon ystyried nodweddion y gwahanol ddarparwyr o fewn PCET.

Rhaid i'r 'Comisiwn' fod yn 'gorff hyd braich' os yw am lwyddo i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Coleg o'r farn bod yn rhaid trosglwyddo'r pwerau presennol a ddelir gan Weinidogion Cymru (heb amod) i'r corff newydd, ac y dylai (y corff) fod yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai fod yn fater i'r corff newydd

benderfynu ar y manylion ynghylch sut y mae i gyflawni ei swyddogaeth, a bod yn rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol osgoi bod yn rhy gyfarwyddol.

RHAID cynnwys pob math o PCET yng nghylch gwaith y Bil ac ni ddylai'r un ohonynt fod y tu allan i'r cwmpas h.y. rhaid cynnwys darparwyr hyfforddiant WBL preifat. Rhaid i gysyniad y dysgwr yn y ganolfan gael ei ymgorffori'n llawn er mwyn ystyried POB dysgwr o fewn PCET. Dylai Rhaglen Gyflogadwyedd yr Adran Gwaith a Phensiynau, a ddarperir yng Nghymru gan 2 neu 3 darparwr WBL, (gyda'r contract yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru) hefyd gael ei chynnwys yn y cylch gwaith hwn, ar hyn o bryd nid yw wedi'i gynnwys. Rhaid i'r Comisiwn gael yr un dylanwad yn y Ffurf ag y mae ym mhob lleoliad PCET.

Mae'r Bil yn amlinellu, 'Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn roi sylw i bwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch yng Nghymru, a rhyddid i lefaru staff academiaidd yn y darparwyr hyn, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil.' Ein barn ni yw nad oes rheswm dros gyfyngu hyn i AU yn unig, yn enwedig gan fod mwy o ffocws bellach ar ymchwil o fewn yr amgylchedd Addysg Bellach.

Nid oes gennym o hyd (neu rydym wedi dechrau trafod) strategaeth neu weledigaeth drosfwaol ar gyfer y sector PCET yng Nghymru, a chredwn ein bod yn canolbwyntio llawer gormod ar drefnu corff i oruchwylio'r broses weithredu ar ôl cytuno - dylai'r ffurf ddilyn y swyddogaeth.

Rhan 2: Cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol

Rydym yn cytuno ag ystyried cofrestrfa o ddarparwyr ond yn cyfeirio at y sylw uchod; dylai hyn gynnwys pob darparwr o fewn PCET. Rydym yn cytuno ar yr amodau cofrestru a amlinellir yn y Bil. Rydym yn cytuno â'r ymrwymiad i osgoi rheoleiddio darparwyr yn ormodol.

Amod cydraddoldeb - mae hyn yn canolbwyntio ar fwy o gyfranogiad a chyrhaeddiad ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Er bod hwn yn amod gwerth chweil, mae angen i unrhyw dargedau fod yn gymesur â chymuned pob sefydliad a'i adlewyrchu.

Yn yr un modd, mae angen ystyried yr holl staff sy'n darparu hyfforddiant o fewn PCET e.e. yn ogystal â darlithwyr mae hyn yn cynnwys Ymarferwyr WBL.

Rydym yn cefnogi gweithredu un fframwaith sicrhau ansawdd cyffredinol ar gyfer y ddarpariaeth ôl-16 gyfan yng Nghymru; ni ddylid rhannu'r ddarpariaeth arolygu rhwng AU ac AB, yn enwedig lle mae darparwyr yn darparu'r ddau. Croesewir hefyd fod yn rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â darparwyr addysg drydyddol cofrestredig ar

y fframwaith/fframweithiau sicrhau ansawdd. Dim ond os yw'r Bil yn ymdrin â phob addysg PCET y bydd proses o'r fath yn effeithiol. Mae angen eglurhad pellach ar y gwahaniaeth rhwng y broses hon mewn AU ac AB, sy'n ymwneud yn benodol â rôl Estyn a chyrrff eraill sy'n asesu ansawdd addysg a hyfforddiant. Rydym yn cwestiynu'r ystyriaeth i ffurfio QAA penodol i Gymru a fydd yn ychwanegu at gymhlethdod yr arolygiad ar gyfer y darparwyr hynny sy'n cynnig AU mewn AB o dan fasnachfaint gyda phrifysgolion Cymru a Lloegr.

Nid oes cyfeiriad at yr arolygiad o bobl ifanc 14-16 sy'n mynychu PCET yn lle ysgolion h.y. y ddarpariaeth Prentisiaethau Iau.

Rhan 3: Sicrhau ac ariannu addysg ac ymchwil drydyddol

Mae'n hanfodol bod darparwyr yn parhau i fod yn annibynnol o ran cyllid.

'Mae'n galluogi'r Comisiwn i ariannu gweithgareddau addysg uwch ac ymchwil ac arloesi sy'n cael ei gyflawni gan ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, a gofrestrwyd mewn categorïau wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau' - a yw hyn yn cyfeirio at AU yn unig? Mae yna gorff cynyddol o ymchwil ac arloesedd sylweddol mewn AB a WBL sydd wedi cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru. A fydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan y Comisiwn?

Mae angen eglurhad pellach ar gyfer y diffiniadau o 'priodol', 'rhesymol', 'cymwys' a 'pherthnasol' mewn perthynas â chyfleusterau ac oedolion.

Mae angen hefyd sicrhau dull o gysondeb ar gyfer y cyllid sydd ar gael i brentisiaid yn erbyn llwybrau ôl-16 eraill. Un enghraifft o hyn oedd yn y dull cychwynnol o ariannu allgau digidol nad oedd ar gael i brentisiaid i ddechrau, er i hyn gael ei newid ar ôl lobiö gan NTFW/Colegau Cymru. Yn yr un modd, mae anghysondebau o ran y dull o ymdrin â chyllid cymorth ADY sy'n gyfyngedig ar gyfer WBL ôl-16 o'i gymharu â chyllid cyfatebol mewn AB. Mae'r penderfyniadau cyflym a wnaed am raddau Safon Uwch a'r dull hirfaith (a diffyg eglurder) ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn ystod y pandemig diweddar - yn enghraifft arall.

'Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu gwneud rheoliadau i bennu cyrsiau addysg uwch penodol y gall y Comisiwn eu hariannu, gyda'r darparwr sy'n darparu'r cwrs ddim angen bod wedi'i gofrestru. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu y dylid ariannu darpariaeth benodol, lle mae prinder sgiliau penodol, er enghraifft, neu gwrs o bwysigrwydd cenedlaethol nad yw ar gael fel arall yng Nghymru ac na fyddai fel arall yn gymwys i gael cyllid.' Credwn ei bod yn bwysig bod darparwyr AB yn parhau i gael cynnig eu darpariaeth lefel 4 a 5 eu hunain fel maen nhw eisoes. Serch hynny, mae angen diogelu ansawdd y ddarpariaeth hon drwy ddyrannu cyllid.

Rhan 4: Prentisiaethau

Rydym yn cytuno â'r weledigaeth ar gyfer prentisiaethau a amlinellir yn y Bil.

Mae angen i'r Comisiwn fynd i'r afael â'r diffyg parch cydradd sydd ar waith ar hyn o bryd rhwng llwybrau academiaidd a llwybrau galwedigaethol. Nid Safon Uwch a phrifysgol yw'r dewis gorau bob amser ond nid yw'r arweiniad mae plant yn ei gael yn yr ysgol yn gytbwys. Mae ysgolion sydd â 6^{ed} Dosbarth am i ddisgyblion aros ymlaen mewn ysgolion. Gall y rhai sy'n darparu arweiniad gyrfaoedd feddu ar ychydig yn unig o wybodaeth am y "llwybr amgen". Mae gan ysgolion nosweithiau agored i esbonio'r broses o wneud cais i brifysgol ond ychydig iawn o ddigwyddiadau fydd hyd yn oed yn cyffwrdd â gwneud cais am brentisiaeth.

Mae angen i rieni a gwarcheidwaid hefyd gael gwell gwybodaeth am y llwybr amgen. I lawer, mae'n cael ei ystyried yn llwybr i'w ddilyn os nad ydych yn "gallu" mynd i'r brifysgol.

Mae angen i'r mathau hyn o gamsyniadau fod yn hanfodol i sefydlu'r Comisiwn newydd hwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

3.341 - 3.343 - Ymddengys fod hyn yn ychwanegu haen ar wahân at ardystio a rheoli prentisiaid ac ni fyddai CAVC yn cefnogi hyn. Mae angen mwy o fanylion am rôl y Comisiwn yn y broses ardystio.

Rhan 5: Diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr

Rydym yn croesawu'r ystyriaeth i ddarparu ar gyfer nodi trefniadau amddiffyn dysgwyr mewn cynlluniau amddiffyn dysgwyr ond nodwn y bydd rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn os nad yw'n cynnwys Rhaglen Gyflogadwyedd yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym yn cytuno bod angen i hyn fod yn gymesur â maint y darparwr. Hoffem gael rhagor o fanylion am sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol a sut y byddai'r trefniadau amddiffyn yn sicrhau 'natur resymol'.

Rydym yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gymryd camau i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefnau ar waith i ymchwilio i gwynion dysgwyr. Rydym yn teimlo y gallai'r Comisiwn fynd ymhellach a dylai sefydlu corff tebyg i OIA AU i ddyfarnu ar gwynion.

Rydym yn cytuno y dylid cael cynrychiolaeth dysgwyr ar y comisiwn ond rydym o'r farn y dylid ymestyn hyn er mwyn sicrhau bod barn gwahanol fathau o ddarpariaeth yn cael ei chynrychioli h.y. AU, AB, WBL ac ati. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut y

bydd dysgwyr yn cael eu hethol i'r comisiwn, pa mor hir fydd eu gwasanaeth a sut maen nhw'n ymgysylltu â'r corff ehangach.

Rydym yn cefnogi'r cynnig bod y Comisiwn yn datblygu, yn ymgynghori ac yn cyhoeddi Cod Ymgysylltiad Dysgwyr sy'n orfodol.

Rydym yn cytuno â'r cynllun i'r amodau hyn fod yn berthnasol i AU.

Rhan 6: Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

Cydnabyddir y bydd system ddata a gwybodaeth effeithiol yn hanfodol wrth ddod â phob elfen o ddarpariaeth ôl-16 at ei gilydd, yn enwedig os defnyddir y data hwn i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddarpar ddysgwyr am y gwahanol fathau o ddarpariaeth. Mae angen i unrhyw system ddata ystyried y gwahanol ddarparwyr o fewn PCET.

Mae pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gyda'r sector ysgolion yn arwyddocaol i gefnogi trosglwyddo effeithiol i PCET.

Rhan 7: Amrywiol a chyffredinol

Rydym o'r farn mai Opsiwn 6 yw'r un a ffefrir ond credwn fod cyfleoedd yn deg ac yn gyfiawn yn ymarferol; rhaid cael cyfle cyfartal i sefydliadau AB sy'n darparu AU y tu allan i drefniadau masnachfaint.

Rydym yn cytuno â'r gwelliant y dylai fod gan y Comisiwn rôl wedi'i diffinio'n glir o ran cefnogi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaedd ar gyfer y sector ôl-16, a ddylai fod yn ddiduedd, yn gyson ac yn gydweithredol ac osgoi dyblygu. Dylai'r ffocws fod ar IAG sy'n adlewyrchu pwysigrwydd llwybrau gyrfa ar draws pob rhan o PCET, galwedigaethol ac academaidd, cyn-16.